



# ACHOSION

## Achosion newydd a adroddwyd a achosion newydd yn ôl dyddiad prawf





## Achosion cronol




# ACHOSION FESUL BWRDD IECHYD LLEOL

	Achosion Newydd	Gronnol o Achosion
Prifysgol Aneurin Bevan	7	2,567
Prifysgol Betsi Cadwaladr	53	2,876
Prifysgol Caerdydd a'r Fro	8	2,748
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	11	2,575
Hywel Dda	2	1,055
Addysgu Powys	0	286
Prifysgol Bae Abertawe	0	1,873
I'w gadarnhau	1	108
<b>Cyfanswm Gymru</b>	<b>82</b>	<b>14,088</b>
Preswyllydd o'r tu allan I Gymru	0	115
<b>Cyfanswm</b>	<b>82</b>	<b>14,203</b>



# MARWOLAETHAU CRONNOL

## Nifer y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19, adroddwyd a dyddiad y farwolaeth , yn ôl ffynhonnell: 5 Mawrth i 02 Mehefin 2020




Nodyn: Mae [blog y Prif Ystadegydd](#) yn esbonio pam bod data ICC yn wahanol i ddata mwy cynhwysfawr y SYG.

Ffynhonnell: [Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) a [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)  
Data ar 02/06/20 a 22/05/20

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol


# MARWOLAETHAU NEWYDD

## Nifer y marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 adroddwyd i lechyd Cyhoeddus Cymru




# GWELYAU LLE DARPERIR CYMORTH ANADLU MEWNWTHIOL

## Nifer y gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol yn ôl defnydd




Nodyn: [Gweler blog y Prif](#) i gael rhagor o wybodaeth am newid y derminoleg o ran gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol.

## Canran y gwelyan lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol yn ôl defnydd




# GWELYAU CYFFREDINOL AC ACÍWT

## Nifer y gwelyau cyffredinol ac aciwt yn ôl defnydd




Nodyn: [Gweler blog y Prif Ystadegydd](#) i gael rhagor o wybodaeth ar y newid adrodd.

## Canran y gwelyau gofal critigol yn ôl defnydd




# CYFANSWM CLEIFION MEWN YSBYTAI A DERBYNIADAU NEWYDD

## Cyfanswm cleifion mewn ysbytai



Nodyn: [Gweler blog y Prif Ystadegydd](#) i gael rhagor o wybodaeth ar y newid adrodd.

## Derbyniadau dyddiol newydd yn ymwneud â COVID-19



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)

Data ar 03/06/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

# GALWADAU BRYS AM AMBIWLANS

## Galwadau brys am ambiwlans



Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru


Data ar 02/06/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol



# GALWADAU 111 A GALW IECHYD CYMRU

## Galwadau 111 a Galw lechyd Cymru



Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru  
Data ar 02/06/2020

Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

# DERBYNIADAU I ADRANNAU DACAB

Nifer y derbyniadau dyddiol i adrannau damweiniau ac achosion brys




Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru  
Data ar 01/06/2020


Daw'r data o wybodaeth reoli a gall fod yn wahanol i'r ystadegau swyddogol

# CANRAN ABSENOLDEB STAFF Y GIG AR GYFARTALEDD

Y ganran wythnosol, ar gyfartaledd, o staff y GIG sy'n absennol yng Nghymru oherwydd COVID-19



Y ganran wythnosol, ar gyfartaledd, o staff y GIG sy'n hunanynysu yng Nghymru



# NODIADAU

	Nodiadau
Cyffredinol	Daw'r data a gyhoeddir yma o wybodaeth reoli ac maent yn destun newid. Nid yw'r data hyn wedi bod yn destun i'r un prosesau dilysu a gynhaliwyd ar gyfer datganiadau ystadegau swyddogol. Fodd bynnag, fe'u darperir i gefnogi tryloywder a dealltwriaeth o weithgaredd y GIG ar yr adeg hon. Dylai'r ystadegau swyddogol barhau i gael eu hystyried yn ffynhonnell ddata awdurdodol.
Achosion	Bu newid i'r amser adrodd ar gyfer profion ac achosion ar 9/10 Ebrill, felly nid yw'r ffigurau ar gyfer 8 Ebrill yn adlewyrchu 24 awr o weithgarwch ar y dyddiad hwnnw Mae achosion newydd yn ôl dyddiad y prawf yn seiliedig ar y diwrnod y cymerwyd y sampl i'w phrofi. Gan fod canlyniadau profion yn cymryd amser i ddod yn ôl, weithiau tridiau, mae tridiau olaf achosion newydd yn ôl dyddiad y prawf wedi'u heithrio
Marwolaethau newydd	Mae marwolaethau newydd a adroddwyd wedi'u seilio ar y rheini a adroddir am 2pm gan lechyd Cyhoeddus Cymru bob dydd. Mae'r dyddiad marwolaeth wedi'i seilio ar y diwrnod y digwyddodd y farwolaeth. Gan fod y dyddiad marwolaethau yn cael ei ôl-ddiweddaru wedi i farwolaethau gael eu hadrodd, mae'r tridiau diwethaf wedi'u heithrio. Mae hyn yn cynnwys marwolaethau unigolion a gafodd ganlyniad positif mewn prawf labordy am COVID-19. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys unigolion a fu farw o bosibl yn sgil COVID-19 ond na chafodd gadarnhad prawf labordy. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r marwolaethau a gofnodwyd yma mewn ysbytai, ond digwyddodd cyfran ohonynt mewn lleoliadau eraill. <a href="#">Mae blog y Prif Ystadegydd</a> yn esbonio pam bod data ICC yn wahanol i ddata mwy cynhwysfawr y SYG.
Marwolaethau Cronnol	Mae marwolaethau newydd a adroddwyd wedi'u seilio ar y rheini a adroddir am 2pm gan lechyd Cyhoeddus Cymru bob dydd. Mae'r dyddiad marwolaeth wedi'i seilio ar y diwrnod y digwyddodd y farwolaeth. Gan fod y dyddiad marwolaethau yn cael ei ôl-ddiweddaru wedi i farwolaethau gael eu hadrodd, mae'r tridiau diwethaf wedi'u heithrio. Mae hyn yn cynnwys marwolaethau unigolion a gafodd ganlyniad positif mewn prawf labordy am COVID-19. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys unigolion a fu farw o bosibl yn sgil COVID-19 ond na chafodd gadarnhad prawf labordy. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r marwolaethau a gofnodwyd yma mewn ysbytai, ond digwyddodd cyfran ohonynt mewn lleoliadau eraill. <a href="#">Mae blog y Prif Ystadegydd</a> yn esbonio pam bod data ICC yn wahanol i ddata mwy cynhwysfawr y SYG. Mae'r ffigurau ar gyfer marwolaethau yn cynnwys marwolaethau a oedd wedi'u cofrestru erbyn y dyddiad a nodwyd yn unig, felly gallant fod yn amcangyfrif rhy isel oherwydd oedi cofrestru. Gellir ddod o hyd i fwy o wybodaeth am oedi cofrestru ar wefan y <a href="#">SYG</a> trwy'r ddolen isod.
Gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwithiol	Mae hyn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r data a gyflwynir yn fwy cywir Mae gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwithiol yn cynnwys y gwelyau hynny mewn lleoliad gofal critigol, yn ogystal â rhai y tu allan i amgylchedd gofal critigol. Fel arfer mae 152 gwelyau gofal critigol yng Nghymru. <a href="#">Gweler blog y Prif</a> i gael rhagor o wybodaeth am newid y derminoleg o ran gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwithiol. Mae'r ffigyrau hyn cynnwys ysbytai maes o 20 Ebrill 2020 ymlaen ac ysbytai cymunedol o 23 Ebrill 2020 ymlaen Cynhwysir cleifion COVID-19: cleifion wedi'u diffinio fel cleifion posibl o COVID-19, cleifion sydd wedi'u cadarnhau, a chleifion sy'n gwella. Mae'n bosibl y bydd data hanesyddol wedi'u diwygio ac na fyddant, felly, yn union yr un fath â'r hyn a gyhoeddwyd o'r blaen. O 22 Mai, o ganlyniad i newid yn y dulliau adrodd, cafodd rhai cleifion yng Nghymru eu hailddosbarthu fel cleifion COVID. Cyn y dyddiad hwn, cafodd rhai cleifion a oedd wedi profi'n bositif am COVID ac a oedd wedi bod yn yr ysbyty am 14 diwrnod ac wedi gwella, eu cofnodi fel cleifion heb COVID

# NODIADAU

	Nodiadau
Gwelyau cyffredinol ac aciwt	<p>Mae'r ffigyrau hyn cynnwys ysbytai maes o 20 Ebrill 2020 ymlaen ac ysbytai cymunedol o 23 Ebrill 2020 ymlaen</p> <p>Cynhwysir cleifion COVID-19: cleifion wedi'u diffinio fel cleifion posibl o COVID-19, cleifion sydd wedi'u cadarnhau, a chleifion sy'n gwella.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd data hanesyddol wedi'u diwygio ac na fyddant, felly, yn union yr un fath â'r hyn a gyhoeddwyd o'r blaen.</p> <p>O 22 Mai, o ganlyniad i newid yn y dulliau adrodd, cafodd rhai cleifion yng Nghymru eu hailddosbarthu fel cleifion COVID. Cyn y dyddiad hwn, cafodd rhai cleifion a oedd wedi profi'n bositif am COVID ac a oedd wedi bod yn yr ysbyty am 14 diwrnod ac wedi gwella, eu cofnodi fel cleifion heb COVID</p>
Cyfanswm cleifion mewn ysbytai a derbyniadau newydd	<p>Mae'r ffigyrau hyn cynnwys ysbytai maes o 20 Ebrill 2020 ymlaen ac ysbytai cymunedol o 23 Ebrill 2020 ymlaen</p> <p>Cynhwysir cleifion COVID-19: cleifion wedi'u diffinio fel cleifion posibl o COVID-19, cleifion sydd wedi'u cadarnhau, a chleifion sy'n gwella.</p> <p>Mae'n bosibl y bydd data hanesyddol wedi'u diwygio ac na fyddant, felly, yn union yr un fath â'r hyn a gyhoeddwyd o'r blaen.</p>
Gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwithiol; Gwelyau cyffredinol ac aciwt a Cyfanswm cleifion mewn ysbytai a derbyniadau newydd	<p>O'r wythnos hon, rydym hefyd yn cyhoeddi nifer y cleifion sy'n gwella. <a href="#">Gweler blog y Prif Ystadegydd</a> am ragor o wybodaeth. Cleifion sy'n gwella yw cleifion sydd wedi profi'n bositif am COVID ac a oedd wedi bod yn yr ysbyty am 14+ diwrnod heb unrhyw arwyddion na symptomau, ond sy'n dal yn yr ysbyty ar lwybr triniaeth COVID, yn aml ar gyfer adsefydlu. Gofynnwyd i'r byrddau iechyd wneud y newid o 26 Mai 2020. Gwnaeth un bwrdd iechyd y newid ar 22 Mai, yn cynnwys cleifion sy'n gwella yn eu rhifau sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer COVID tan 25 Mai. Yw un bwrdd iechyd yn gallu adrodd am gleifion COVID sy'n gwella .Ond mae'r rhain wedi'u cynnwys yn eu rhifau sydd wedi'u cadarnhau ar gyfer COVID.</p>
Galwadau brys am ambiwalans	<p>Nifer y digwyddiadau yng Nghymru y bu adnoddau WAST, nid yw'r ffigurau'n cynnwys digwyddiadau yn Lloegr</p>
Galwadau 111 a galw iechyd cymru	<p>Mae'r data hwn yn cynnwys galwadau i 111 a hefyd Galw Iechyd Cymru a gafodd eu hateb neu eu gadael ar ôl 60 eiliad. Mae'r data hwn hefyd yn wahanol i Ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Nid yw hwnnw ond yn cynnwys galwadau a gofnodwyd yn eu system ar gyfer protocol penodol ac nid yw'n cynnwys pob galwr a oedd yn dymuno siarad â gweithredwr.</p>
Derbyniadau i adrannau dacab	<p>Gan gynnwys derbyniadau i ysbytai Mawr a Bach, drwy bob dull cludo, ar draws pob bwrdd iechyd lleol. Nid yw rhai unedau bach Damweiniau ac Argyfwng yn gallu cyflwyno data dyddiol, felly mae'n debyg bod tangyfrif bach yn y cyfanswm sy'n mynychu.</p>
Absenoldeb staff y GIG	<p>Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys data ar gyfer holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru ond nid ydynt yn cynnwys data ar gyfer Bae Abertawe hyd at 20 Mai (gan nad oeddent yn gallu darparu data ar yr un sail â'r sefydliadau eraill tan y dyddiad hwnnw).</p> <p>Ni all Caerdydd a'r Fro ddarparu data ar gyfer penwythnosau felly caiff data'r dydd Gwener blaenorol eu hailadrodd dros y dydd Sadwrn a'r dydd Sul.</p> <p>Nid yw'r categori Nyrsio a bydwreigiaeth ond yn cynnwys staff cofrestredig.</p> <p>Nid yw canran y staff sy'n hunanynysu o reidrwydd yn adlewyrchu absenoldeb staff o'r gwaith. Er enghraifft, bydd yna staff yn y grŵp staff arall a all barhau i weithio gartref.</p>